**CYFARFOD y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 17eg Chwefror 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd B. Mellor (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. F. Moylan, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford a Miss R. Siddall.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 112. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Tad Charles Ramsey, y cyfarfod trwy arwain pawb mewn gweddi.

## 113. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), Mrs J. Chamberlain-Jones (ar wyliau), Mrs E. M. Chard (ymrwymiad arall), S. H. Ratcliffe (yn sâl), D. Simmons (ymrwymiad arall), W. N. Tasker (yn sâl), y Parch. S. F. Walker (yn sâl) a Miss C. L. Williams (ar wyliau).

## 114. COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion Cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 20fed Ionawr 2016 - Rhifau Cofnod 95-111

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Ionawr 2016 - Rhifau Cofnod 45-47

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 3ydd Chwefror 2016 - Rhifau Cofnod 48-50

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

**I Gadarnhau neu fel arall:**

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 3ydd Chwefror 2016 - Rhifau Cofnod 73-85

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendegast ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cymeradwyo ar gyfer gweithredu.*

## 115. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau a fynychwyd ganddo ef a'r Dirprwy Faer y mis diwethaf, ac yn benodol ar Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Apêl Canser Gogledd Cymru (Apêl Canser Ron a Margaret Smith gynt), gan ychwanegu bod llawer o waith da iawn yn cael ei wneud ganddynt er budd cleifion canser.

## 116. CYFLWYNIAD: 'NEWID SYNIAD POBL O'R RHYL'

Mewn perthynas â chofnod rhif 101 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Ionawr 2016, croesawodd y Maer Ms Vicki Shenton-Morris o Gyngor Sir Ddinbych a Ms Heather Blundell a Mr Bill Ranatunga o Weber Shandwick a'u gwahodd i annerch yr Aelodau.

Adroddwyd:

- Bod yr ymgyrch wedi ei hadeiladu o amgylch pump o themâu allweddol (Manwerthu a Chymdogaethau, Addysg ac Ymchwil, Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden a Busnes).
- Hyd yma roedd y tîm wedi sicrhau 14 adroddiad cenedlaethol, yn cyrraedd rhyw 63.8 miliwn o bobl, a fyddai wedi costio oddeutu £102,679 mewn dulliau hysbysebu mwy traddodiadol.
- Hyrwyddwyd 10 o negeseuon allweddol yn yr adroddiad gyda phedwar o fusnesau'r Rhyl wedi cael proffil yn y wasg leol, ranbarthol a chenedlaethol, gyda datblygiad Marina Quay wedi cael proffil yn y cyhoeddiad eiddo pwysig 'Property Week'.
- Roeddynt wedi cyfarfod pobl allweddol yn y Rhyl megis Pennaeth Ysgol Uwchradd y Rhyl, cwmni adeiladu Willmott Dixon, Scarborough Developments a'r Daily Post, BBC Wales, The Independent a'r Guardian a oedd oll yn awyddus i hyrwyddo a chyhoeddi straeon newyddion cadarnhaol.
- Roeddynt wedi monitro'r geiriau mwyaf poblogaidd a oedd yn gysylltiedig â'r Rhyl yn y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng cymylau geiriau ac wedi gweld gwelliant arwyddocaol ers dechrau ar y prosiect.
- Roeddynt eisiau hybu'r brand 'Love Rhyl' y tu hwnt i'r ymgyrch leol.
- Roeddynt eisiau cysylltu â phobl go iawn i weithredu fel Hyrwyddwyr dros y Rhyl, a'r targedau oedd Pro Kitesurfing, Garry Davies o Gyngor Sir Ddinbych, y Pier Hotel, y Maer a Detour, ac ati.
- Byddent yn gweithio'n agos â Neptune Developments Ltd i gynhyrchu adroddiadau fel yr oedd y gwaith yn mynd rhagddo.
- Cynllun i fywiogi ardaloedd eraill yn y Rhyl hefyd, trwy gyfrwng prosiectau fel arddangosfeydd cyhoeddus, cysylltiadau â buddsoddwyr, siarad â Premier Inn, Future Sixth a'r 'Gig on the Green'.

Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau'r Aelodau, dywedwyd:

- Y byddent yn atal y llif o straeon negyddol trwy roi rhai cadarnhaol i'r cyfryngau, trwy herio pethau anghywir a gofyn am gael eu tynnu'n ôl. Ychwanegwyd eu bod wedi cyfarfod â'r Daily Post a'r Journal a bod y ddau yn cytuno.
- Mae'r grŵp monitro yn penderfynu pwy ddylent gysylltu â nhw ac anogwyd y Cynghorwyr i ddarparu rhai eraill.
- Roedd angen iddynt wthio cynnwys nawr yn hytrach nag adweithio i sylwadau negyddol.
- Cytunasant na ddylent roi'r argraff anghywir i ymwelwyr trwy addo popeth yn rhy fuan.
- Roedd ganddynt berthynas waith dda â Gunsmoke Communications, y cwmni Cysylltiadau Cyhoeddus a Digwyddiadau a gomisiynwyd yn ddiweddar gan y Cyngor Tref.

Diolchodd y Maer i Ms Shenton-Morris, Ms Blundell a Mr Ranatunga am eu cyflwyniad.

**117. <u>CYFLWYNIAD: TÎM GORFODI CYNGOR SIR DDINBYCH</u>**

Mewn perthynas â chofnod rhif 57 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Medi 2015, hysbysodd Clerc y Dref y cyfarfod o ymddiheuriadau Mr T. Wynne-Evans' oherwydd ymrwymiad arall.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *bod Clerc y Dref yn trefnu i Mr Wynne-Evans roddi cyflwyniad i gyfarfod arall yn y dyfodol.*

**118. <u>COD YMARFER YR AELODAU – TREFNIADAU ARFAETHEDIG I HUNAN-REOLI</u>**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ohebiaeth gan Bwyllgor Safonau Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn ymwneud â thoriadau lefel isel o'r Cod i'r Aelodau ei hystyried.

Teimlai'r Aelodau bod y fecanwaith bresennol yn gweithio'n dda ac nid oeddynt yn gweld rheswm i'w newid.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *nad yw'r Cyngor Tref eisiau mabwysiadu'r protocol newydd.*

**119. <u>EITEM ER GWYBODAETH: DIWEDDARIAD AR NEPTUNE DEVELOPMENTS</u>**

Mewn ymateb i siom Aelodau o glywed am y sefyllfa ddiweddaraf yn y Wasg leol, yn hytrach na bod y Cyngor Tref yn cael ei hysbysu ymlaen llaw, dywedodd y Cynghorydd Mellor bod Cyngor Sir Ddinbych, ar 16eg Chwefror, wedi cymeradwyo Cytundeb Adfywio Trosfwaol newydd yn rhoi cyfnod pellach o ddetholusrwydd h.y. na fydd Cyngor Sir Ddinbych yn trafod gyda rhywun arall. Byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau mewn pum cyfnod penodol (Diwylliannol a Lletygarwch, Hamdden Egnïol, Adloniant i'r Teulu, Canolfan Ddŵr a Chanol y Dref) gyda'r cais cynllunio ar gyfer cyfnod un, Diwylliannol a Lletygarwch, i'w gyflwyno yn y mis nesaf.

Ychwanegodd y Cynghorydd Mellor y byddai datblygiadau pellach yn y cynllun yn cael eu hadrodd i gyfarfodydd Grŵp Aelodau Ardal ar y cyd yn y dyfodol, hynny yw, gyda Chynghorwyr Tref a Sir yn bresennol, er mwyn iddynt gael yr wybodaeth.

**120. <u>HOLI AC ATEB</u>**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**121. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**122. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU**

Mewn perthynas â chofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**123. CYNLLUN TREF AC ARDAL Y RHYL**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu'r cyfarfod o'r gwariant arfaethedig gan y Cyngor Tref i fynd gyda menter Cynllun Tref ac Ardal.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) Dyrannu arian na chafodd ei wario yn y gyllideb i wella'r Stryd Fawr i gynllun y Promenâd.*

*(ii) Awdurdodi cynrychiolwyr y Cyngor Tref ar y Pwyllgor Cynllun Tref ac Ardal i symud ymlaen i wella'r cynllun.*

**124. SIOP CYNGOR AR FUDD-DALIADAU**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol ar ôl cael gohebiaeth gan yr uchod (dosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) Bod Clerc y Dref yn trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol i ystyried y mater ymhellach.*

*(ii) Gwahodd Ms Nicola Stubbins o Gyngor Sir Ddinbych i fynychu cyfarfod arbennig y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol.*

**125. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:………….……………..

Dyddiad: …………….……………..